

Maddeuant

Darllen: Luc 6:37

Dyma binacl dysgeidiaeth Iesu: ‘Maddeuwch, ac fe faddeuir i chwi’. Cyn hyn, roedd yr elfen o ‘ddant am ddant’ a thalu’r pwyth yn ôl yn rhan greiddiol o gyfraith yr Iddew. Os oedd dyn yn llofruddio dyn arall, fe ddylid llofruddio’r llofruddiwr hefyd. Os oedd rhywun yn eich taro, doedd dim i’w wneud ond ei daro’n ôl.

Gydol ei weinidogaeth, mae Iesu’n cyfeirio at y deyrnas; ac un o nodweddion y deyrnas hon oedd bod dyn yn barod i faddau i’w gyd-ddyn. Canlyniad maddeuant yw ein bod yn rhwystro drygioni rhag lledaenu, ac yn delio â drygioni trwy arllwys cyfeillgarwch a maddeuant ar bobl sy’n gwneud drwg i ni. Felly y caiff drygioni ei rwystro rhag mynd ymhellach. Atal y drwg rhag lledaenu. Mor hawdd yw dweud hynny, ond ar y groes mae Iesu’n wynebu pob math o ddrygioni – gwawd, dialedd, ymosodiadau corfforol – ac yn cymryd y cwbl arno’i hun ac yn ei rwystro rhag mynd ymhellach trwy ddweud, ‘O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud’(Luc 23:34). Beth amdani felly? Maddeuant a chymod ydi’r nod.

Ar lefel bersonol, mae’n bwysig ein bod i ddechrau yn sylweddoli ein bod i gyd yn bechaduriaid. Does yr un ohonom yn berffaith. Felly, mae’n anochel bod pobl eraill yn bechaduriaid. Mae’n rhan o’r natur ddynol, yn rhan o’n gwendid. Ac felly, cymaint mwy y dylen ni fod yn barod i dderbyn eraill. Maen nhw’n perthyn i’r un teulu â ni – teulu dyn. Tybed ydi hi’n wir bod pobl sydd wedi derbyn maddeuant yn fwy parod i faddau ac i garu nag eraill, a bod pobl sydd heb dderbyn maddeuant yn amharod i faddau i’w gilydd?

Ond dowch i ni feddwl am ddau beth arall. Yn gyntaf, beth am y bobl hynny sy’n cymryd mantais o’n trugaredd a’n tosturi? Oni fydd drygioni’n cynyddu os nad ydyn ni’n barod i gymryd camau pendant i’w ddileu?

Cefais brofiad o hyn yn ystod fy ngyrfa fel arweinydd ieuenctid. O dro i dro, byddai'n rhaid diarddel ambell fachgen am ymladd a chamymddwyn. Pan ddigwyddodd hynny unwaith, gofynnodd un o'r bechgyn i mi, 'Ydach chi'n mynd i ddiarddel John?' 'Ydw,' meddwn innau, a chael cwestiwn arall, 'A chithau'n Gristion? Fe ddylech chi faddau.' O edrych ar ddysgeidiaeth Crist drwyddi draw, mae yna le i ddisgyblaeth, os ydi'r ddisgyblaeth honno'n arwain at wella a thrawsnewid pobl a sefyllfaoedd. Anfonodd Iesu'r cyfnewidwyr arian allan o gynteddau'r deml. Pwrpas y ddisgyblaeth oedd diwygio a gwella. Disgyblaeth er mwyn bod yn well yw hon, ac nid disgyblaeth er mwyn talu'r pwyth yn ôl – nid disgyblaeth ddialgar.

Ac yn ail, beth am yr awgrym bod maddeuant yn cyfyngu ar bersonoliaeth yr unigolyn gan fod dial a ffyrnigrwydd ac atgasedd yn elfennau cwbl naturiol o fewn y natur ddynol. Ond prun yw'r person cryfaf, yr un sy'n medru rheoli ei dymer ynteu'r un sy'n methu â gwneud hynny? Os gallwn reoli ein tymer, a gweddïo mewn gwirionedd dros y rhai sy'n gwneud drwg i ni, mae parhad drygioni wedi'i atal. Felly rydyn ni'n cael ein galw i faddau.

Myfyrdod pellach:

Fedrwch chi feddwl am enghreifftiau sy'n dangos pa mor anodd fu maddau yn eich bywyd chi?

Ystyriwch weddi Sant Ffransis, 'Arglwydd gwna fi'n offeryn dy hedd'. *Gweddïau Enwog* (Cyhoeddiadau'r Gair, t. 30)